

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga - Cyfarfod o Bell on Dydd Mawrth, 25ain Ionawr, 2022 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor S. Woodhouse (Chairman)
County Councillor A. Webb (Vice Chairman)

County Councillors: C. Edwards, R. Harris,
V. Smith, J. Treharne, P. Murphy, S. Howarth and
P. Jordan

Also in attendance County Councillors:

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp (Priffyrdd a Rheoli
Llifogydd)
Mark Hand, Pennaeth Lluio Lle, Tai, Priffyrdd a
Llifogydd
Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau
Landlord Masnachol ac Integredig
Dave Loder, Rheolwr Cyllid
Carl Touhig, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Rhian Jackson, Cemeteries Officer

APOLOGIES: Councillors A. Easson

1. Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd yna ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.

3. Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2022/23 Bydd papur cryno ar gyfer y pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf ar y meysydd sy'n dod o fewn ei gylch gwaith yn dilyn.

Roedd yr Aelod Cabinet Phil Murphy wedi rhoi'r cyflwyniad gyda sylwadau ychwanegol gan Jonathan Davies. Carl Touhig a Jonathan Davies oedd wedi ateb cwestiynau'r Aelodau.

Her:

Beth fydd yr effaith ar wastraff a gwasanaethau eraill, fel cynnal a chadw tiroedd?

Mae Gwastraff wedi ei effeithio'n benodol yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran methu gwneud y gwelliannau a fwrriadwyd. Ar nodyn positif, mae yna danwariant gennym, a fydd yn helpu'r gyllideb y flwyddyn nesaf; fodd bynnag, gan nad ydym wedi medru cyflwyno pob dim sydd wedi arwain at yr arbedion ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddwn angen gwario'r arian yma'r flwyddyn nesaf. Rydym wedi gweld nifer gynyddol o bobl yn defnyddio'r safleoedd CA yn

hytrach na chasglu wrth ochr y ffordd, ac mae hyn wedi cynyddu ein cyfraddau ailgylchu yn sylweddol - sydd dipyn yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru eleni, er bod hyn yn gosod pwysau ychwanegol ar y rhengflaen.

Yn 2021, roeddem wedi gweithredu rhaglen o ddilyniant a chynllunio ar gyfer staff, hyfforddi mwy o yrwyr HGV, uwch lwythwyr, helpu pobl newydd i ddod i mewn i'r gwasanaeth ayyb. Mae hyn yn gost ychwanegol ond yn gwella'r cyfle sydd gan bobl yn y rhengflaen i ddatblygu yn eu gyrfaeodd. Mae'r Siopau Ail-ddefnyddio a Chaffis Atgyweirio yn mynd yn dda ond maent yn arwain at gostau ac nid ydym wedi llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i greu incwm, yn sgil cyfnodau clo Covid.

Mae'r newid i'r biniau gwastraff yr ardd wedi bod yn llwyddiant aruthrol, gan leihau'r cymhorthdal sydd ei angen gan y Cyngor er mwyn cynnal y gwasanaeth ond eto, mae yn fantais ac anfantais: mae poblogrwydd y gwasanaeth yn golygu bod angen i ni brynu cerbyd arall. Nid oeddem wedi disgwyl y fath lwyddiant gyda chynnydd o 2,000 o gwsmeriaid. Bydd angen i ni hyrwyddo'r gwasanaeth er mwyn cael mwy o gwsmeriaid a sicrhau nad ydym ar ein colled. Mae llwyth gwaith y tîm cynnal a chadw tiroedd wedi cynyddu'n ddramatig. Rydym yn ceisio rhoi cynnig ar bethau newydd drwy'r amser fel *No Mow May*. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn ymateb yn dda i hyn, mae dal angen esbonio i eraill. Yn cydnabod y trafferthion a ddaw o gael gweithlu sydd yn heneiddio, rydym wedi cyflwyno cynllun dilyniant ymhlith y staff cynnal a chadw tiroedd, gan greu timau i wneud gwaith penodol ac mae ychydig o hyn yn creu incwm – ond rydym wedi cyrraedd y penllanw ac mae angen i ni fuddsoddi mewn meysydd penodol o fewn y Cyngor.

Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau grantiau ar gyfer prosiectau adfywio a gwella canol y trefi ond er mwyn sicrhau bod trefi dal yn edrych ar eu gorau, rhaid i gynnal y seilwaith sydd wedi ei osod. Mae hyn yn ychwanegu costau ond dyma'r peth cywir i'w wneud, yn enwedig wrth i ni ddenu ymwelwyr i ganol y trefi.

Mae clefyd Chalara (coed ynn) yn effeithio ar y sir gyfan nawr, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o goed sydd wedi eu heffeithio. Eleni, byddwn yn apwyntio swyddog coed newydd a fydd yn nodi union leoliad y coed. Rydym wedi gofyn am gyllid cyfalaf ac yn gobeithio dechrau yn yr ardaloedd lle y mae'r clefyd yma ar ei waethaf.

Roeddem wedi mynd allan i dendr ar y cytundeb HWRC a'r orsaf drosglwyddo: mae Suez nawr wedi cymryd yr awenau gan Viridor. Roedd llawer o'r egwyddorion a roddwyd yn eu lle wedi lleihau cost y cytundeb yn sylweddol - tua £300k– ac mae ychydig o incwm yn cael ei greu gan y contract. Felly, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynyddu eleni ar ben yr arbedion sydd eisoes wedi eu gwneud.

Roedd yna sôn am ostyngiad yn nifidend y gwasanaeth amlogfa o £46k - ai dyma'r gostyngiad yn swm y difidend neu ai dyma'r hyn a dderbyniwyd gan y gwasanaeth amlogfa?

Ie - dyma swm y gostyngiad. Roeddem yn arfer derbyn tua £140k y flwyddyn o'r difidend, sydd nawr yn mynd i newid yn sgil y rhesymau a amlinellwyd: mae mwy o gystadleuaeth, llai o ddibyniaeth ar arian wrth gefn gan y gwasanaeth amlogfa. Maent yn chwilio am ffordd fwy cynaliadwy dros y tymor canolig, a'r cam cyntaf yw lleihau'r difidend.

Beth yw ystyr 'trefniadau gweithio gwahanol' yn Swyddfa Bost Brynbuga?

Nid ydym yn medru rhoi ateb uniongyrchol y bore yma ond byddwn yn medru cynnig mwy o wybodaeth i Aelodau maes o law.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r swyddogion. Mae llunio cyllideb yn y fath gyfnod heriol yn dipyn o dasg. Mae rhai gwasanaethau fel Gwasanaethau Cynnal Priffyrdd a Gwastraff o dan bwysau sylweddol. Mae ein timau wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth fynd i'r afael gyda'u dyletswyddau, yn enwedig yn sgil prinder staff. Mae yna ymdrechion llwyddiannus wedi bod fel *No Mow May*, a grantiau wedi eu sicrhau ar gyfer canol y trefi sydd wedi bod yn effeithiol. Mae'r Cyngor wedi ceisio gwneud pob dim i greu incwm er mwyn unioni'r golled mewn incwm. Ac felly, mae angen i ni fuddsoddi yn y gwasanaethau yma nawr. Mae hyn yn esbonio pam fod costau wedi cynyddu, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa heriol gyda'r pandemig, a'r llifogydd cyn hynny. Rydym wedi derbyn sicrwydd bod pob dim y gellir ei wneud wedi ei wneud.

4. Polisi Palmant Caffi - Craffu cyn penderfynu ar y polisi diwygiedig hwn (adroddiad i ddilyn).

Roedd Paul Keeble wedi rhoi cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Mark Hand.

Her:

Ym mharagraffau 7 and 7.1, o dan y goblygiadau ar adnoddau: faint fydd yr ymgynghorydd yn costio? A fydd yn cael ei dalu gan y ffi nominal o £10? Os na, pam?

Ni fydd y ffi £10 yn talu am yr adnodd staffio mewnol neu ymgynghorydd a bydd rhaid talu am hyn o'n cyllideb. Nid oes amser gennym gyda'r polisi dros dro i amlinellu ac ymgynghori ar ffi newydd a gofyn i'r Aelod Cabinet i gytuno ar hyn cyn bod y cyfnod cyn-etholiadol yn dechrau. Y ffordd orau yw parhau fel hyn dros dro a datrys hyn unwaith ein bod wedi cadarnhau'r gost o ddarparu'r gwasanaeth a gosod y ffi yn briodol y flwyddyn nesaf.

A oes modd cynnal yr arolwg hwn yn fewnol gan ein gweithwyr ein hunain?

Nid oes digon o staff gennym. Roeddem wedi cael caniatâd yng Ngorffennaf i lenwi nifer o swyddi gwag a chreu rhai newydd; rydym dal yn mynd drwy'r broses hon. Mae llenwi'r swydd yma wedi cymryd amser ac wedi bod yn anodd, ac mae nifer o swyddi dal yn wag. Nid yw'r adnodd gennym yn fewnol eto, a hynny yn sgil yr holl waith arall sydd yn cael ei wneud gan y tîm.

Pan fydd y trefniadau wedi eu cytuno a'r meysydd wedi eu nodi, a fydd modd hysbysu'r sawl sydd â nam ar eu golwg bod rhywbeth ar y llawr, os nad oes yna rwystrau diogelwch?

Os bydd yna rwystrau diogelwch, byddant wedi eu gorchuddio er mwyn helpu'r sawl sydd â nam ar eu golwg, a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau eraill ynglŷn â sut i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn rhan o'r broses adolygu, pan ein bod yn ymgysylltu gyda grwpiau gwahanol.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gerddwyr' h.y. y sawl sydd yn cerdded. Ond mae defnyddwyr eraill yn defnyddio'r llwybr - a oes modd defnyddio term gwell?

Mae hyn yn bwynt da ond nid ydym yn sicr pa derm arall y mae modd ei ddefnyddio.

Rhaid i bawb sydd â thrwydded gael yswiriant atebolrwydd ag isafswm o £5m. Pa sicrwydd ydych wedi derbyn bod pob man trwyddedig wedi sicrhau a'n meddu ar y fath yswiriant?

Mae yswiriant yn rhan o'r broses drwyddedu – mae'n ddogfen gytunedig gyfreithiol a byddem angen gweld rhan o'u hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyn rhoi trwydded. Mae'n amod o'r drwydded.

A ydym yn delio gydag achosion o gaffis yn mynd y tu hwnt i'w ffiniau?

Mae yna duedd o hyn yn digwydd sydd wedi ei nodi yn yr adran Werthuso, gan fod pobl anabl yn aml yn cael eu heffeithio pan fydd busnesau yn gwthio eu ffiniau ymhellach na'r hyn a ganiateir. Dyma pam, fel rhan o'r polisi dros dro, ein bod angen cynllun sydd yn cael ei fonitro yn aml fel ein bod - pan yn cynnal arolygon - yn medru arolygu'r mannau yma a'n sicrhau eu bod yn gyson gyda'r hyn sydd ar y cynllun. Dylem ystyried marcio cerbyttfordd wrth i ni fynd ymlaen. Bydd syniad gwell gennym o sut i reoli hyn wrth i'r pandemig encilio.

Nid ydym am weld y polisi fel rhywbeth sydd yn cyfyngu pobl gymaint fel nag ydynt yn medru parhau fel ydynt nawr, oni bai bod hyn yn anniogel. Er enghraifft, storio bwyd a diodydd yn yr awyr agored. A oes yna amgylchiadau ar gyfer hyn, er enghraifft yn ystod Gŵyl Fwyd Y Fenni?

Mae hyn yn ymwneud yn fwy ag lechyd Amgylcheddol gan fod angen cwrdd â'r safonau bwyd. Felly, os nad yw'r safle yn cynnig bwyd a diodydd, ni fyddai'r polisi dros dro yr ydym yn ei gynnig yn caniatáu iddynt gael trwydded gan na fyddent yn cwrdd â'r safonau bwyd. Mae gwyliau bwyd yn cael eu rheoli fel digwyddiadau gwahanol - ni fyddent yn briodol i dderbyn trwyddedau caffi palmentydd.

O ran tynnu celfi oddi yno, a oes yna ffafriaeth ar gyfer celfi sydd eisoes yno a heb fod yn beryglus?

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y dylid symud pob dim y tu hwnt i'r oriau agor, er mwyn cadw'r briffordd yn glir, gan fod y celf yn medru cael eu fandaleiddio neu achosi niwed.

Mae rhai strwythurau yn cael eu caniatáu ar y priffyrdd er bod angen ystyried hyn yn ofalus gan fod angen cynnal mynediad ar gyfer gwneud gwaith gynnal a chadw neu waith ar gyfleustodau. Mae'r King's Head yng Nghas-gwent yn enghraifft: yn sgil llechwedd yr ardal lle y mae pobl yn eistedd, paratowyd lle ar gyfer byrddau a chadeiriau ac nid oes modd clirio'r rhain bob nos, ac felly, mae yna drefniadau penodol yn eu lle. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai disgwyl bod y byrddau, cadeiriau a rhwystrau yn cael eu tynnu oddi yno bob nos, fel sydd yn digwydd ar y cyfandir.

Beth yw'r polisi gyda'r Byrddau A?

Y bwriad yw ehangu'r polisi fel rhan o'r adolygiad er mwyn cynnwys Byrddau A a'r elfen hysbysebu, gan gynnwys hysbysebu ar ymbaréls, baneri ayyb. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn y polisi er mwyn cynnal yr amgylchedd a gwneud y trefi yn fwy deniadol ond mae disgwyl ystyried hyn yn y dyfodol a byddai'n gyfle i gael adborth gan fusnesau a

chwsmeriaid. Roeddem am osgoi sefyllfaoedd lle y mae unrhyw ofodau yn cael eu defnyddio ar gyfer hysbysebu.

A oes yna lefydd lle y mae busnesau agos yn fodlon i gaffi/bwyty i ddefnyddio'r darn o flaen eu heiddo hwy?

Pe bai cymdogion yn cytuno i wneud hyn, byddem o bosib yn ei ystyried ond byddai'n rhaid adlewyrchu hyn yn y polisi gan na fyddai'r rhan fwyaf o fusnesau cyfagos yn dymuno hyn.

Ai dim ond pren neu fetel a ganiateir yn unig? Mae rhai celfi plastig cryf a dymunol ar gael.

Mae rhai celfi plastig yn medru ymddangos yn ddymunol ond mae hyn hefyd yn ymwneud gyda defnyddio llai o blastig os yn bosib. Mae pren a metel o safon uchel fel arfer ond mae modd ystyried posibiladau eraill wrth i ni symud ymlaen.

Bydd cyfarpar yn cael ei osod ar y priffyrdd cyhoeddus. A fyddai'n bosib ystyried yr opsiwn i gynnig y llefydd yma ar brydles i'r busnesau perthnasol, yn hytrach na bod y Cyngor yn gyfrifol amdanynt?

Byddem yn medru ystyried prydles ar gyfer tir Cyngor Sir Fynwy ond nid ar gyfer y priffyrdd cyhoeddus gan eu bod o dan gylch gorchwyl y Ddeddf Priffyrdd, sydd yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol. Mae unrhyw gyfarpar sydd yn cael ei osod ar y priffyrdd cyhoeddus yn cael ei ystyried yn rhwystr; mae ond modd caniatáu hyn drwy gyfrwng trwydded gan yr Adran Briffyrdd. Nid yw'n anghyffredin i ni ganiatáu trwyddedau ar gyfer nifer o bethau ond dyma'r broses nad rhaid i ni sicrhau cydymffurfiaeth gyda nifer o feini prawf.

Felly, yr Adran Briffyrdd yn unig sydd yn gyfrifol am reoli hyn?

Ar y cyfan – ond hefyd drwy ymgynghori gyda chydweithwyr Trwyddedi ac Iechyd Amgylcheddol - mae pawb ohonom yn cael mewnbwn.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i chi am eich adroddiad. Rydym wedi craffu'r polisi a'r cynnig i adolygu'r polisi gan gynnwys y ffi i wneud cais yn ystod 2022, i adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth ac arferion gorau drwy gyfrwng polisi diwygiedig a'r strwythurau ffioedd sydd yn cael eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet ar gyfer ei gymeradwyo. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda fforymau busnes a phartïon eraill a chanddynt ddiddordeb, a bydd eu hawgrymiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r polisi diwygiedig. Mae'n dda gweld y bydd y polisi yn rhan o ymgynghoriad ac yn cael ei adolygu drwy gydol y cyfnod a bydd angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y polisi yn llwyddiannus.

Rydym yn gobeithio bod y pwyntiau a wnaed gan Aelodau yn cael eu hystyried, yn enwedig mewn perthynas gyda'r sawl sydd â nam ar eu golwg ac eithriadau ar gyfer gadael byrddau a chadeiriau yn yr awyr agored, y deunyddiau sydd yn cael eu defnyddio a bwyd a diod.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld y pwyntiau yma yn cael eu cynnwys fel argymhellion.

5. Ystyried adroddiad a gynhyrchwyd gan y Cynghorydd Sirol V. Smith mewn perthynas â chladdediogaethau ac amlosgiadau.

Roedd y Cynghorydd Smith wedi cyflwyno'r adroddiad. Roedd Debra Hill-Howells wedi esbonio gwasanaeth Cyngor Sir Fynwy a Rhian Jackson wedi ateb cwestiynau'r Aelodau.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi helpu gyda 7 angladd yn y 3 flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nid oedd y rhain yn ymwneud gyda theuluoedd yn methu talu'r costau am y gwasanaeth angladd ond unigolion heb deulu agos neu wedi ymddieithrio o'u teuluoedd. Rydym yn gofalu ar ôl y broses o gadw llefydd mewn mynwentydd, cynnal gwiriadau fel yr hawl i gladdu'r unigolyn, trefnu'r angladd gyda chyfarwyddwyr angladd, gofalu am y garreg fedd a gofalu am y bedd gyda'r timau cynnal a chadw. Rydym hefyd yn cynnig cymorth a chyngor i'r sawl sydd yn profi'r brofedigaeth.

Wrth ystyried sut y mae modd i ehangu'r gwasanaeth, rhaid i ni fod yn realistig, gan mai un Swyddog Mynwentydd sydd gennym, Rhian Jackson. Mae wedi cynnal trafodaethau o'r blaen gyda chyfarwyddwyr angladd ynglŷn ag oes modd gwneud rhywbeth gyda'r gwasanaethau 'di-lol' a beth arall y mae modd i ni wneud fel Awdurdod. Ar y pryd, nid oedd llawer o awch i wneud dim. Mae'r cyfarwyddwyr yn ein hardal eisoes yn cynnig gwasanaeth 'di-lol' ond rydym yn hapus i ystyried unrhyw syniadau eraill sydd o bosib yn fuddiol.

Her:

O ran y 7 angladd yn y 3 flynedd ddiwethaf, a oes yna rywun yn y fath amgylchiadau truenus nad oedd modd cynnal angladd?

Mae hynny'n gywir. Rydym ond yn cynorthwyo ag angladdau lle nad oes teulu agos. Mae'r ysbyty yn ymgymryd â hyn os yw'r person yn marw yn yr ysbyty heb unrhyw arian. Os oes arian ganddynt ond nid yw'r teulu am drefnu'r angladd os ydy'r person wedi marw yn yr ysbyty, byddem yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Felly, mae'n bosib bod yna bobl sydd yn cael trafferth talu am yr angladd ond byddai hyn yn cael ei guddio wrthym a bydd tîm profedigaeth yr ysbyty yn delio gyda hyn.

Crynodeb y Cadeirydd:

Bydd swyddogion yn trefnu cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet Member a'r Cynghorydd Smith er mwyn trafod yr argymhellion mewn mwy o fanylder.

6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i llofnodwyd fel cofnod cywrain, a chynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Treharne a'i eilio gan y Cynghorydd Smith.

03916731

7. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf.

Mae yna newidiadau wedi bod i'r rhaglen: mae'r cyfarfod nesaf ar 10fed Chwefror yn mynd i drafod y Strategaeth Iaith Gymraeg a'r Polisi Cyfiawnder Cymdeithasol - a thrafod diwygiadau i'r polisi a'r cynllun gweithredu. Roedd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar Reoli Cŵn i'w drafod ar y diwrnod hwnnw, sydd yn ddarn sylweddol o waith yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus o 3 mis; nodwyd y bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth, a oedd i'w gynnal yn hwyrach yn Fawrth ond sydd i'w gynnal nawr ynghynt yn sgil yr ystyriaethau cyn-etholiadol. Y dyddiad arfaethedig yw 10fed Mawrth.

Cytunodd yr Aelodau ar 10fed Mawrth am 2pm.

8. Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor.

9. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

The meeting ended at **11.56 am**